

# Cylchlythyr | Circular

## Ymgynghoriad ar ganllawiau diwygiedig ar siarteri myfyrwyr

**Dyddiad:** 20 Rhagfyr 2021  
**Cyfeirnod:** W21/41HE  
**At:** Sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru a'u Hundebau Myfyrwyr  
Sefydliadau a gyllidir yng Nghymru a'u Hundebau Myfyrwyr  
**Ymateb erbyn:** 11 Chwefror 2022  
**Cyswllt**  
Enw: Elin Morris  
Ffôn: 029 2085 9755  
E-bost: Rhagor o wybodaeth gan [elin.morris@hefcw.ac.uk](mailto:elin.morris@hefcw.ac.uk)  
Ymatebion i [quality@hefcw.ac.uk](mailto:quality@hefcw.ac.uk)

Mae'r cylchlythyr hwn yn ymgynghori ar ddiwygiadau i ganllawiau CCAUC ar siarteri myfyrwyr. Rydym yn cynnig diweddarau'r canllawiau i gynnwys gwybodaeth am ddiogelu fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, a iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl.

Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 11 Chwefror 2022.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch  
mewn fformat hygyrch arall, anfonwch  
e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn ymgynghori ar ddiwygiadau i ganllawiau CCAUC ar siarteri myfyrwyr. Rydym yn cynnig diweddarau'r canllawiau i gynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, a iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl.
2. Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 11 Chwefror 2022 i [quality@hefcw.ac.uk](mailto:quality@hefcw.ac.uk).

## Y Cefndir

3. Ers 202/13, mae CCAUC wedi'i gwneud hi'n ofynnol i'r holl sefydliadau a reoleiddir ac/neu a gyllidir sefydlu siarter myfyrwyr. Amlinellwyd y gofyniad hwn yng nghylchlythyr W11/31HE. Cafodd effaith y canllawiau ei monitro yn 2013 (cylchlythyr [W13/27HE](#)), a diweddarwyd y canllawiau mewn ymateb i'r ymarfer monitro yn 2014 (cylchlythyr [W14/05HE](#)). Cyhoeddwyd diwygiadau pellach yn 2017 (gweler cylchlythyr [W17/19HE](#)), a 2019 (gweler cylchlythyr [W19/15HE](#)). Canllawiau 2019 yw'r fersiwn gyfredol.

## Y Sefyllfa Gyfredol

4. Yn ôl canllawiau cyfredol CCAUC, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch adolygu eu siarter myfyrwyr yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn dal i gael ei defnyddio ac yn dal i fod yn berthnasol. Dylai myfyrwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr, swyddogion undebau myfyrwyr a staff sefydliadau ei hadolygu ar y cyd.
5. Drwy weithio gyda phartneriaid fel UCM Cymru<sup>1</sup> a Students Space<sup>2</sup>, rydym wedi sylweddoli bod angen diweddarau'r canllawiau presennol i gynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, a'r wybodaeth sydd wedi'i diweddarau am iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl. Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad cyffredinol o'r iaith a ddefnyddir gennym yn y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hawdd eu deall, yn enwedig o safbwynt y corff o fyfyrwyr, mewn trafodaeth ag UCM Cymru.

## Y newidiadau a gynigir

Diogelu fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol.

6. Roedd llythyr cylch gwaith [2021-22 CCAUC](#) oddi wrth Lywodraeth Cymru yn croesawu'r *'gwaith a wnaed gan y Cyngor ac ar draws y sector i gryfhau dulliau diogelu i sicrhau bod sefydliadau yn amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol i'r holl staff a myfyrwyr'*.

---

<sup>1</sup> [www.nus-wales.org.uk/](http://www.nus-wales.org.uk/)

<sup>2</sup> <https://studentspace.org.uk/cy>

7. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl inni *'weithio gyda'r sector i wneud cynnydd cyflym a pharhaus i wella profiad staff a myfyrwyr mewn addysg uwch waeth beth fo'u cefndir hiliol.'* Mae addysg uwch ddiogel a chynhwysol yn hanfodol er mwyn sicrhau llesiant, iechyd ac iechyd meddwl myfyrwyr. Mae hynny hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau profiadau cadarnhaol i fyfyrwyr, cadw myfyrwyr a sicrhau eu cyrhaeddiad, eu llwyddiant academaidd a'u llwyddiant yn y dyfodol.
8. Rydym wedi canfod bod angen diweddarau canllawiau siarteri presennol CCAUC i gynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol.
9. Dylai darparwyr addysg uwch ddarparu dolenni i bolisïau a phrosesau i esbonio wrth fyfyrwyr sut mae darparwyr yn anelu i sicrhau addysg uwch ddiogel a chynhwysol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol, ymhlith agweddau eraill:
  - Mynd i'r afael â thrais ac aflonyddwch sy'n seiliedig ar hunaniaeth, waeth beth fo'i ffurf;
  - Mynd i'r afael â thrais rhywiol, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys trais rhywiol yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ac anffurfio organau cenhedlu benywod;
  - Troseddau casineb wedi'u hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn sy'n seiliedig ar hil yr unigolyn neu ganfyddiad o'i hil; crefydd neu ganfyddiad o grefydd; cyfeiriadedd rhywiol neu ganfyddiad o gyfeiriadedd rhywiol; anabledd neu ganfyddiad o anabledd, ac unrhyw drosedd wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhywun sy'n drawsryweddol neu y tybir ei fod yn drawsryweddol; a
  - Rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n profi lefelau isel o iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl.
10. Dylai gwybodaeth i fyfyrwyr fod yn glir ynghylch y gefnogaeth y gall myfyrwyr ei disgwyl gan y darparydd addysg uwch ac/neu mewn cydweithrediad ag asiantaethau'r trydydd sector.

### Iechyd a Llesiant

11. Mewn cysylltiad â chyllid hirdymor CCAUC i gefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, mewn addysg uwch, a strategaethau cysylltiedig gan ddarparwyr (gweler cylchlythyr [W19/11HE: Student well-being and health in higher education](#)), rydym wedi nodi bod angen cynnwys rhagor o wybodaeth am iechyd a llesiant yng nghanllawiau presennol CCAUC ar siarteri myfyrwyr. Yn ogystal â hynny, bydd yr holl ddarparwyr yn ymwybodol o'r cynnydd mewn salwch meddwl ymhlith myfyrwyr cyn Covid-19 ac effaith y pandemig ar iechyd meddwl.
12. Dylai siarteri gynnwys dolenni i brosesau a gweithdrefnau darparwyr addysg uwch ar gyfer iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl myfyrwyr. Gall newidiadau gynnwys y canlynol, ymhlith eraill:
  - Strategaethau iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl;

- Iechyd a llesiant gan gynnwys iechyd meddwl, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd;
  - Datganiad ar ddulliau a'r strategaeth mwy diogel o ran hunanladdiad.
13. Lle bo darparwyr wedi ennill dyfarniad [Siarter Iechyd Meddwl Prifysgol](#) Student Minds, neu gydnabyddiaeth debyg yn gysylltiedig â hynny, bydd dolenni i'r dyfarniadau hyn o ddiddordeb i fyfyrwyr.
  14. Dylai gwybodaeth i fyfyrwyr fod yn glir ynghylch y gefnogaeth y gall myfyrwyr ei disgwyl gan y darparydd addysg uwch ac/neu mewn cydweithrediad ag asiantaethau'r trydydd sector, gan gynnwys manylion cyswllt.

### Y camau nesaf

15. Mae CCAUC wedi darparu cyllid grant i UCM Cymru i gefnogi gwaith ar lais y myfyriwr mewn rheoliadau. Mae'r prosiect yn cynnwys ymgysylltu â'r corff o fyfyrwyr (drwy swyddogion sabothol/cynrychioliadol) ym mhob darparydd a reoleiddir ac/neu ddarparwyr a gyllidir, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gysylltiedig ag UCM Cymru, ynghylch sut y caiff canllawiau CCAUC ar siarteri myfyrwyr eu defnyddio ar hyn o bryd. Bydd CCAUC yn ystyried y trafodaethau hyn wrth lunio'r canllawiau terfynol.
16. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr yn cyfarfod â chynrychiolwyr y myfyrwyr ac yn trafod canlyniadau'r ymgynghoriad.
17. Byddwn yn ystyried cyngor y Pwyllgor ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad wrth lunio'r canllawiau diwygiedig terfynol i'w cymeradwyo gan Gyngor CCAUC.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. **Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n fuddiol i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol?**
2. **Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n fuddiol i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl?**
3. **A fydd cynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, neu iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, yn creu canlyniadau anfwriadol?**
4. **A ellid cyflwyno unrhyw ddiwygiadau eraill i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr a fyddai'n gwneud y canllawiau hynny'n fwy defnyddiol?**
5. **Pa effaith (os o gwbl), boed hynny'n gadarnhaol neu'n niweidiol, y bydd y cynigion hyn yn ei chael ar:**
  - gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a

- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.
6. Sut y gellid newid y polisi er mwyn i'r penderfyniad o ran polisi gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar:
- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg
7. A yw'r newidiadau a gynigir yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio?

### Amserlen

18. Dyma'r amserlen a gynigir:

Cyfnod ymgynghori	Rhagfyr 2021
Ymgysylltu â chynrychiolwyr Undebau'r Myfyrwyr drwy UCM Cymru	Ionawr 2022
Cau'r ymgynghoriad	Ddechrau mis Chwefror 2022
Dadansoddi'r Ymatebion	Chwefror 2022
Cynrychiolwyr myfyrwyr a'r Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr yn cynghori ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad	Chwefror 2022
Y Cyngor yn ystyried canllawiau diwygiedig	Mawrth 2022
Cyhoeddi canllawiau diwygiedig CCAUC	Ebrill 2022
Sefydliadau'n cyhoeddi siarteri diwygiedig, mewn partneriaeth a'r corff o fyfyrwyr	Erbyn Medi 2022

### Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:

19. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Elin Morris (029 2085 9755; [elin.morris@hefcw.ac.uk](mailto:elin.morris@hefcw.ac.uk)). Ymatebion i [quality@hefcw.ac.uk](mailto:quality@hefcw.ac.uk).

### Asesu effaith ein polisiau

20. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.